Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

Ysgol Cymerau
Ffordd Mela
Pwllheli
Gwynedd
LL53 5AR

23/09/2026

Annwyl arweinwyr a staff

**Ymweliad Interim:** Medi 2026

Ymwelodd tîm o arolygwyr ag Ysgol Cymerau yn ddiweddar i ystyried cynnydd mewn perthynas ag argymhellion o'r arolygiad craidd blaenorol. Manteisiodd y tîm ar y cyfle i arsylwi ar addysgu a dysgu, siarad â disgyblion a staff, craffu ar ddogfennaeth ac edrych ar samplau o waith disgyblion. Isod, ceir crynodeb o ganfyddiadau'r ymweliad.

## Ffocws yr ymweliad

### Mireinio prosesau hunanwerthuso er mwyn sicrhau gwelliannau yn y ddarpariaeth a chynnydd ym medrau disgyblion

- Dros amser, mae arweinwyr wedi datblygu trefniadau buddiol ar gyfer gwerthuso ansawdd y ddarpariaeth a'r effaith ar gynnydd disgyblion.
- Mae'r trefniadau yn cynnwys yr holl arweinwyr ynghyd ag ystod dda o bartneriaid yr ysgol, fel disgyblion, rhieni a llywodraethwyr. Maent yn ymgymryd ag ystod bwrpasol o weithgareddau monitro amserol sy'n eu galluogi i gasglu tystiolaeth uniongyrchol ynghylch y ddarpariaeth ar effaith ar fedrau disgyblion. Mae arweinwyr yn ystyried y dystiolaeth hon yn ofalus, sydd, yn ei dro, yn cefnogi eu hadnabyddiaeth o gryfderau'r ysgol a'r meysydd i'w gwella yn effeithiol. Maent yn rhoi sylw priodol i'r meysydd gwella hyn trwy flaenoriaethu gwahanol agweddau i'w datblygu ymhellach.
- Ar y cyfan, mae'r trefniadau ar gyfer rheoli perfformiad staff yn addas. Mae arweinwyr yn cydnabod yr angen i finiogi'r trefniadau hyn ymhellach er mwyn anelu bod y gweithgareddau dysgu proffesiynol yn canolbwyntio'n fwy uniongyrchol ar anghenion datblygu unigol staff.

Estyn | Dros ddysgwyr, dros Gymru
For learners, for Wales

## Gwella'r cyfleoedd i ddisgyblion ymateb i adborth er mwyn gwella eu gwaith a chymryd mwy o gyfrifoldeb am eu dysgu

- Mae gan arweinwyr a staff weledigaeth glir sy'n seiliedig ar sicrhau fod trefniadau'r ysgol ar gyfer rhoi adborth ar waith disgyblion yn ddealladwy, yn hygyrch ac yn cael effaith gadarnhaol ar eu cynnydd. Trwy gydweithio bwriadus, maent wedi rhannu'r weledigaeth hon yn llwyddiannus gyda staff a disgyblion.
- Mae'r arweinwyr yn sicrhau fod dysgu proffesiynol, gan gynnwys cyfleoedd i rannu arferion da yn fewnol a gyda staff mewn ysgolion cyfagos, wedi datblygu gallu a hyder athrawon o ddulliau perthnasol o gynnig adborth pwrpasol i ddisgyblion. Mae hyn wedi hwyluso sefydlu trefniadau a dulliau cyson ar draws yr ysgol.
- Ar y cyfan, mae athrawon yn darparu adborth priodol sy'n cefnogi disgyblion i adnabod yr hyn y maent wedi ei wneud yn dda a beth sydd angen iddynt ei wella. Mae disgyblion yn ymateb yn fuddiol i'r adborth ac yn gwella eu gwaith yn briodol gydag annibyniaeth cynyddol. Yn achlysurol, mae adborth gan staff yn dueddol o ganolbwyntio ar ganmol gwaith y disgyblion ac nid yw, bob tro, yn cefnogi disgyblion i wella eu dysgu yn ddigon cyson.

Gellir dod o hyd i adroddiad arolygu craidd diweddaraf yr ysgol a gwybodaeth bellach am broses a phwrpas ymweliadau interim ar ein gwefan: http://www.estyn.llyw.cymru/darparwr/6612125

Yn gywir

LMiles.

**Liz Miles**
Cyfarwyddwr Cynorthwyol

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

Estyn, Llys Angor, Heol Keen, Caerdydd, CF24 5JW Ffôn: 02920 446446 ymholiadau@estyn.llyw.cymru www.estyn.llyw.cymru

Estyn, Anchor Court, Keen Road, Cardiff, CF24 5JW Telephone: 02920 446446 enquiries@estyn.gov.wales www.estyn.gov.wales

Mae Estyn yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg a Saesneg. Bydd gohebiaeth a dderbynnir yn y naill iaith neu'r llall yn cael yr un flaenoriaeth.

Estyn welcomes correspondence in both English and Welsh. Correspondence received in either language will be given equal priority.